**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15 Rhagfyr 2014**

**LLYWODRAETHU'R BWRDD CYMUNEDAU DIOGELACH**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Diogelach.

**Cefndir**

2 Yng nghyfarfod y Bwrdd Cymunedau Diogelach ar 6ed Mehefin 2014, cytunodd yr aelodau i roi cyfansoddiad ffurfiol i'r Bwrdd fel pwyllgor cynghori, a hynny yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972.

3 Mae'r datblygiad hwn yn ddiwedd ar drafodaeth hirfaith, a bydd yn egluro diben y Bwrdd a'i bwerau penderfynu. Bydd yn awr yn troi o fod yn bartneriaeth wirfoddol i fod yn bwyllgor â chyfansoddiad ffurfiol.

**Gwybodaeth**

4 Gellir sefydlu pwyllgor cynghori o fewn y ddeddfwriaeth fel y mae, a byddai angen ymgorffori'r fframwaith Trosolwg a Chraffu ar lefel cynghorau, sef fframwaith y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn rhwym wrtho.

5 Yn y cyfarfod diwethaf, cytunodd yr aelodau y dylai'r Bwrdd gyflawni'r tasgau a ganlyn:

- Comisiynu gwasanaethau a ariennir drwy grantiau rhanbarthol penodol
- Cael atebolrwydd strategol am Fwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru

- Sefydlu fframwaith cyffredin a chyson ar gyfer cyflenwi'n strategol, tactegol a gweithredol ar lefelau rhanbarthol, is-ranbarthol a lleol drwy gynhyrchu asesiad strategol blynyddol a chynllun diogelwch cymunedol (i'w hadlewyrchu gan ddull tebyg ar gyfer cyfiawnder ieuenctid).
- Nodi blaenoriaethau i'w rhannu a/neu gyffredin ym meysydd diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuenctid
- Bod yn llais cynrychioliadol ffurfiol i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a'r Corff Plismona lleol.

6 Mae sefydlu'r pwyllgor cynghori newydd yn golygu bod gan bob partner nifer gyfartal o aelodau â hawliau pleidleisio. Gallai gyflawni pob un o'r tasgau a ddymuna ac a amlinellir uchod, ac eithrio comisiynu (oni bai fod cronfa ranbarthol bendant) oherwydd ni allai gael awdurdod wedi ei ddirprwy'n ffurfiol iddo ar ran aelodau unrhyw awdurdod lleol.

7 Un cam gweithredu yn deillio o'r cyfarfod ym mis Mehefin oedd y byddai pob aelod o'r Bwrdd Cymunedau Diogelach yn rhoi gwybod yn ffurfiol i'w sefydliadau eu hunain am statws newydd y Bwrdd fel pwyllgor cynghori.

8 Nodwyd y camau gweithredu a ganlyn, sy'n gysylltiedig â'r newidiadau yn y llywodraethiant:

(i) Yr aelodau i roi gwybod i'w sefydliadau a strwythurau Bwrdd Gwasanaethau Lleol / Cynllun Diogelwch Cymunedol am statws newydd y Bwrdd Cymunedau Diogelach fel pwyllgor cynghori.

(ii) Sefydlu mecanweithiau i gyfleu blaenoriaethau'r Bwrdd i'w hystyried yn lleol a/neu'n is-ranbarthol.

(iii) Adolygu'r cylch gorchwyl. Cafodd fersiwn ddrafft o'r cylch gorchwyl ei ystyried gan yr aelodau yn y cyfarfod ar 5ed Tachwedd 2014.

(iv) Y gofyniad terfynol oedd adolygu aelodaeth y Bwrdd. Argymhellir mai dim ond yr Aelodau a'r swyddogion a gynhwysir yn atodiad 1 sy'n aelodau sefydlog o'r Bwrdd.

9 Gan adeiladu ar statws cryfach y Bwrdd, mae angen symud ymlaen i ddatblygu asesiad anghenion integredig unigol ar gyfer Gogledd Cymru. Cytunodd yr aelodau eisoes ar y cynnig hwn mewn egwyddor, bydd gwaith yn cychwyn nawr i baru'r asesiad strategol, asesiadau camddefnyddio sylweddau ac anghenion y Rhaglen Ymyriadau Gyffuriau (DIP). Byddai dull o'r fath yn galluogi'r Bwrdd i hybu'r Cynllun rhanbarthol ar gyfer Diogelwch Cymunedol drwy osod blaenoriaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth.

10 Yn cyd-redeg â datblygu asesiad anghenion integredig bydd y gofyniad i gael fframwaith monitro cadarnach. I'r diben hwn, bydd angen i'r Bwrdd ystyriaeth yr wybodaeth y bydd ei hangen a beth fydd eu disgwyliadau petai materion yn codi.

11 Ystyriaeth arall yw sut y gall y Bwrdd Cymunedau Diogelach a'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd roi cefnogaeth i'w gilydd o ran cysoni blaenoriaethau cyffredin a chomisiynu penderfyniadau.

**Argymhelliad**

12 Nodi cynnwys yr adroddiad a'r flaenraglen waith sydd yn atodiad 2.

**Atodiad 1**

**Aelodaeth o'r Bwrdd Cymunedau Diogelach**

Aelodau ffurfiol: Y diffiniad o aelodau ffurfiol yw cynrychiolwyr o'r asiantaethau partneriaethol statudol, fel y'u rhestrir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Bydd disgwyl i'r Aelodau Etholedig a benodir fod yn ddigon profiadol ac uchel eu safle; bydd y swyddogion a benodir ar lefel briodol o uchel i wneud penderfyniadau o'r fath ar ran eu sefydliadau. Bydd hawliau pleidleisio llawn gan benodeion, boed yn aelodau etholedig neu'n uwch swyddogion. Dyma'r sefydliadau statudol a nodir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998:

- Awdurdodau Lleol
- Heddlu
- Gwasanaeth Prawf
- Gwasanaeth Tân
- Bwrdd Iechyd Lleol

Ymgynghorwyr Arweiniol: Ar hyn o bryd (Tachwedd 2014) yr ymgynghorwyr arweiniol gweithredol yw Colin Everett (Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint) a Mark Polin (Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru).

Ymgynghorwyr Proffesiynol Sefydlog: Caiff ymgynghorwyr eu canfod i ymuno â'r Bwrdd i ddarparu cyngor arbenigol i'r aelodau. Ni fydd ganddynt hawliau pleidleisio llawn.

Aelodau Cyfetholedig: Caiff aelodau cyfetholedig eu penodi i'r Bwrdd fel y bo'r angen. Bydd ganddynt hawliau llawn i siarad ond nid hawliau pleidleisio.

Dylai cynrychiolwyr o bob partner cyfansoddol fod yn ddigon uchel eu safle yn ei sefydliad i wneud ymrwymiadau angenrheidiol o ran adnoddau a pholisïau. Nid bwriad y gofyniad hwn yw peryglu annibyniaeth a phrosesau penderfynu'r sefydliadau partneriaethol.

Dylai cynrychiolwyr partneriaid statudol, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, fod yn ddigon uchel eu safle i sicrhau bod eu sefydliad yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

Bydd yn ofynnol i bob un o awdurdodau lleol y rhanbarth enwebu Aelod Etholedig yn ffurfiol i'w cynrychioli ar y Bwrdd. Bydd yr awdurdodau statudol eraill yn cael eu cynrychioli gan swyddogion sydd â phwerau wedi eu dirprwy iddynt gan eu sefydliadau eu hunain.

Bydd gan y Bwrdd bŵer i gyfethol aelodau ychwanegol fel y bo'r angen, a dylai ystyried cynrychiolaeth partneriaethau pwysig eraill yn yr ardal.

**<u>Tabl 1</u>: Cyfansoddiad yr Aelodaeth**

| Sefydliad | Nifer cynrychiolwyr | Dirprwyaeth | Hawl pleidleisio |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1 | Aelod Etholedig | Oes |
| | 1 | Prif Swyddog/ Cyfarwyddwr | Nac oes |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 1 | Aelod Etholedig | Oes |
| | 1 | Prif Swyddog/ Cyfarwyddwr | Nac oes |
| Cyngor Sir Ddinbych | 1 | Aelod Etholedig | Oes |
| | 1 | Prif Swyddog/ Cyfarwyddwr | Nac oes |
| Cyngor Sir y Fflint | 1 | Aelod Etholedig | Oes |
| | 1 | Prif Swyddog/ Cyfarwyddwr | Nac oes |
| Cyngor Sir Gwynedd | 1 | Aelod Etholedig | Oes |
| | 1 | Prif Swyddog/ Cyfarwyddwr | Nac oes |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 1 | Aelod Etholedig | Oes |
| | 1 | Prif Swyddog/ Cyfarwyddwr | Nac oes |
| Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 1 | Aelod Etholedig (Comisiynydd) | Oes |
| | 1 | Swyddog-Aelod | Nac oes |
| Heddlu Gogledd Cymru | 1 | Swyddog-Aelod | Oes |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 1 | Swyddog-Aelod | Oes |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1 | Swyddog-Aelod | Oes |
| Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol | 1 | Swyddog-Aelod | Oes |
| Prawf Cymru | 2 | Swyddog-Aelod | Oes (1 bleidlais) |
| Llywodraeth Cymru | 1 | Aelod Cynghori | Nac oes |
| Ysgrifenyddiaeth:<br>i. Cyd-gysylltydd<br>ii. Cofnodydd | 2 | Swyddogaeth gynghori | Amh. |
| Cyfanswm | 22 | | |

# Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru – Rhaglen Waith 2014/5, Fersiwn 3 (Hydref 2014)

| Rhif | Blaenoriaeth | Canlyniadau | Camau gweithredu | Y Diweddaraf | Swyddog(ion) Arweiniol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Mae gan bobl fwy o hyder ac ymwybyddiaeth i adrodd ynghylch troseddau cam-drin domestig a thrais rhywiol | Bwrw ymlaen ag argymhellion y Prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach ar gyfer y rhanbarth | ▪ Mae 2 o bob tri 3 o'r 11 o safonau isaf wedi gwneud cynnydd er bodd Llywodraeth Cymru, sef Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaethau/Ymgysylltu a Pholisïau'r Gweithle ar Gam-drin Domestig. O ran polisïau'r gweithle, mae cynlluniau i ymestyn i'r sector preifat a'r sector gwirfoddol. Fel rhan o'r fenter hon bydd y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol allan i ddiben ymgynghoriad cyhoeddus cyn bo hir (aros dyddiad gan Lywodraeth Cymru).<br>▪ Mae Llywodraeth Cymru wrthi ystyried caffael darparwr ar gyfer yr hyfforddiant, a chysylltwyd â darparwyr gwasanaethau lleol ledled Cymru.<br>▪ O hyn ymlaen y blaenoriaethau (a fynegir yn ffurfiol drwy lythyr at yr arweinydd cydweithredu rhanbarthol ganol mis Hydref) yw Hyrwyddwyr ym maes Cam-drin Domestig a Rhannu Gwybodaeth.<br>▪ Efallai na fydd rhai o'r Safonau Isaf yn bosibl, ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n chwilio am farn Cydlynwyr Cam-drin Domestig ynghylch hyn, e.e. gweithdrefn drosfwaol ar gyfer cwynion ac eiriolwr wedi ei enwebu ar gyfer cwynion. | Cadeirydd Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| | | Mae pobl ifanc yn ymwybodol o natur a goblygiadau trais rhywiol, a ble i gael cymorth | Ffurfio mentrau ar y cyd â nodau ac amcanion craidd y Strategaeth Cymru gyfan a'r cynlluniau gweithredu lleol ar gyfer Cam-drin Domestig. | ▪ Mae rhaglen anorfodol Gogledd Cymru ar gyfer North Wales rhai sy'n cam-drin, sef Choose2Change, wedi sicrhau cyllid gan Heddu Gog. Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu tan Fawrth 2015.<br>▪ Mae ymgyrch 'Nid yw Cam-drin Domestig yn Gwahaniaethu' yn cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru i addysgu'r cyhoedd am wahanol fathau o gam-drin a bydd yn hyrwyddo'n uniongyrchol i grwpiau ar yr ymylon nad ydynt ar eu pen eu hunain. | Cadeirydd Fforwm Cam-din Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ▪ Mae'r tendr ar gyfer Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru (i'w hailenwi'n 'Byw heb Ofn' o bosibl) wedi cael ei lansio ar wefan GwerthwchiGymru.<br>▪ Mae cynyrchiadau theatr 'Cat's Paw' yn cael eu cyflwyno ledled y Gogledd i godi ymwybyddiaeth ac i addysgu pobl ifanc (blynyddoedd 9 a 10) am drais rhywiol. | |
| | | Ymdrin yn effeithiol y tro cyntaf ag achosion risg uchel o gam-drin domestig drwy ymyriad MARAC effeithiol | Datblygu fframwaith ar gyfer asesu pa mor effeithiol yw MARACau | ▪ Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu MARAC i gysylltu camau gweithredol a strategol er mwyn gwella perfformiad cyffredinol MARACau. Mae'r Cynllun yn cael ei anfon i bob ardal i gael sylwadau, ac mae adborth yn cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru. | Cadeirydd Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru |
| | | | Datblygu dull rhanbarthol o ymdrin ag Adolygiadau Dynladdiadau Domestig drwy ddatblygu pecyn rhanbarthol | ▪ Mae Cynllun Diogelwch Cymunedol Gwynedd wedi trefnu sesiwn ymarfer myfyriol ar 30ain Hydref 2014.<br>▪ Bydd Lee Robinson yn cyflwyno adroddiad ar y mater hwn yn y cyfarfod o'r Bwrdd yn Nhachwedd 2014. | Cadeirydd Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru |
| 2. | Trosedd Feddiangar | Canfod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn lleol o ran trosedd feddiangar, a datblygu ymatebion targedol a priodol i'r tueddiadau hynny<br><br>Ymdrin ar y cyd â'r rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf yn ein cymunedau | Adolygu a gwerthu cynlluniau gweithredu IOM lleol. | ▪ Mae Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu, ac mae'n dilyn ymlaen o'r Cynllun Lleihau Aildroseddu ar gyfer Cymru. Rydym wrthi cynnal adolygiad eto er mwyn nodi'r cryfderau presennol a meysydd i'w datblygu ymhellach.<br>▪ Mae Pecyn Rhanbarthol yn y camau olaf o gael ei arwyddo gan Fwrdd IOM Cymru, a chynhelir ymarferiad tebyg i'r uchod i feincnodi yn erbyn y ddogfen hon.<br>▪ Ymarferiad cwmpasu i ddatblygu elfen WISDOM o'r Cynllun IOM. Gwneir hyn gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru. | Cadeirydd Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) Gogledd Cymru |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | Cefnogi'r rhai sydd â risg uchel o ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r rhai sy'n dioddef dro ar ôl tro<br><br>Darparu ymyriadau priodol i ganfod problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol yn ein cymunedau | Asesu pa mor effeithiol yw ein prosesau cyfredol ar gyfer tasgau ymddygiad gwrthgymdeithasol i sicrhau ein bod yn cefnogi'r rhai sydd â risg uchel o ddioddef Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac yn dioddef dro ar ôl tro | ▪ Mae proses Asesu Risg wedi ei mewnosod yn llwyr o'r cyswllt cyntaf drwodd i waredu achosion, a hynny drwy ganolbwyntio ar risg.<br>▪ Mae tasgau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar waith yn y rhanbarth, a Rheoli Partneriaethau cadarn.<br>▪ Wedi cychwyn cronfa ddata datrys problemau, a gellir ei rhannu ar draws asiantaethau<br><br>**Rhanbarth Perfformiad Ymddyg. Gwrthgym. Hyd yn Hyn Eleni**<br><br>Amgylcheddol -48.5%<br>Niwsans - 0.2%<br>Personol -24.9%<br>**Cyfanswm -12.5%**<br><br>Mae nifer y bobl sy'n galw dro ar ôl tro yn parhau i ostwng, ar hyn o bryd -14% (Awst 2014 o'i gymharu ag Awst 2013)<br><br><u>Gweithgarwch yn yr Arfaeth</u><br>▪ Ffurfioli proses i asesu canlyniad o'i gymharu â gweithgarwch, gan ddefnyddio Siartiau Prosesau Ystadegol.<br>▪ Llwyr weithredu a defnyddio'r ddeddfwriaeth newydd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>▪ Datblygu MARAC Troseddau Casineb ar gyfer Cymru. | Uwcharolygydd Diogelwch Cymunedol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4. | Camddefnyddio Sylweddau | Gwella argaeledd ac ansawdd gwasanaethau addysg, atal ac ymdrin, gyda chymorth cysylltiedig a’r pwyslais ar y berthynas rhwng alcohol, cyffuriau a throseddu. | Datblygu a gweithredu Strategaeth Gomisiynu rhanbarthol effeithiol | ▪ Cytunwyd ar dîm cefnogi parhaol ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal, ac mae’n cael ei symud ymlaen gan y rheolwr comisiynu – mae hyn yn sicrhau ymdriniaeth ddaearyddol eang a’r gwaith yn cael ei rannu’n glir, a dylai hynny gefnogi’r partneriaid<br>▪ Sefydlir dulliau newydd i gyfathrebu fel y bo negeseuon clir yn cael eu darparu am waith a chynnydd y Bwrdd Cynllunio Ardal<br>▪ Mae prosiect i wella cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn mynd rhagddo<br>▪ Mae fframweithiau Rheoli Perfformiad yn cael eu symud ymlaen<br>▪ Mae strategaeth lawn ar gyfer yr ystâd yn mynd rhagddi i sicrhau bod modd cyfeirio arian yn effeithiol ac ar sail angen pendant<br>▪ Sefydlir rhaglen i fynd i’r afael â’r gofynion y mae alcohol yn eu gosod ar wasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth | Cadeirydd Grŵp Gweithredol y Bwrdd Cynllunio Ardal |
| 5. | Llywodraethu a Gweinyddu | Cylch gorchwyl effeithiol ar gyfer y Bwrdd | Adolygu’r cylch gorchwyl i adlewyrchu trefniadau llywodraethu’r Bwrdd | ▪ Lluniwyd cylch gorchwyl drafft, i’w ystyried yn y cyfarfod yn Nhachwedd 2014. | Cadeirydd y Bwrdd |
| | | Darperir tystiolaeth o flaenoriaethau’r Bwrdd, a chânt eu hadolygu’n flynyddol | Llunio’r Asesiad Strategol a’r Cynllun Diogelwch Cymunedol | ▪ Bydd Asesiad Strategol 2014 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod yn Nhachwedd 2014. | Cadeirydd y Bwrdd |